Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 22 Awst 2017 am 9.30 am**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd E T Kirchner (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J A Hale | T J Hennegan | C A Holley |
| M B Lewis | S Pritchard | B J Rowlands |
| A H Stevens | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sarah Caulkin | Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro |
| Andrew Hopkins | Cynghorydd Gwella Busnes, Tîm Trawsnewid |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Rowlands | Rheolwr Cyflwyno Strategol a Pherfformiad |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, C R Evans a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 9 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 10 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.

## 11 Uned Datblygu a Chyflwyno Polisi Corfforaethol.

Cyflwynwyd trosolwg o'r Uned Cyflwyno a Datblygu Polisi Corfforaethol ('yr Uned') gan y Rheolwr Cyflwyno Strategol a Pherfformiad. Nodwyd ganddo fod y broses o sefydlu'r Uned eisoes wedi cychwyn a rhoddwyd trosolwg ganddo o'r canlynol: -

- Yr hyn fyddai'r Uned yn ei ddarparu
- Yr hyn na fyddai'r Uned yn ei ddarparu
- Cyfrifoldebau'r Uned
- Sut ffurf fyddai ar yr Uned
- Camau nesaf yr Uned

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Swyddog, ac ymatebodd yn briodol.

Gofynnwyd am gopi ysgrifenedig o swyddogaeth, rolau a chyfrifoldebau'r Uned. Nodwyd hefyd bod yr Uned o hyd yn datblygu a byddai'n cael ei hadolygu a'i haddasu yn briodol er mwyn sicrhau ei bod yn effeithiol.

**Penderfynwyd:** -

1) nodi'r diweddariad; ac
2) y byddai swyddogaeth, rolau a chyfrifoldebau'r Uned yn cael eu darparu'n ysgrifenedig.

## 12 Cwmpas yr Adolygiad Caffael.

Darparwyd cwmpas amlinellol o'r Adolygiad Caffael gan Andrew Hopkins, Cynghorydd Gwella Busnes o'r Tîm Trawsnewid.

Roedd cwmpas arfaethedig yr Adolygiad Caffael yn cynnwys y canlynol: -

- Adolygiad o wariant y cyngor mewn perthynas â busnesau bychain a chanolig (SMEs)
- Gwariant Trydydd Parti
- Contractau fframwaith presennol a'u heffaith ar BBaCh
- Adolygiad o'r gwasanaeth sydd ar gael i BBaCh mewn perthynas â'r broses dendro/cyflwyno cais
- Adolygiad cyffredinol o reoli contractau
- Lefelau gwariant nad yw'n cydymffurfio
- Ffyrdd i hyrwyddo cyflenwad lleol

Nodwyd mai adolygiad corfforaethol yn unig oedd yr adolygiad arfaethedig ac nid oedd yn cynnwys ysgolion.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cwmpas arfaethedig yr Adolygiad Caffael, a oedd yn canolbwyntio ar:

- Sut caiff contractau eu hysbysebu i BBaCh a ph'un ai oes modd hysbysebu contractau ar wefan y cyngor
- Porth Gwerthwch i Gymru
- Adolygiadau caffael blaenorol
- Ystyried cynnwys Addysg/Ysgolion yn yr Adolygiad
- Yr angen i sicrhau bod ansawdd y gwasanaethau/nwyddau a ddarperir yn cael ei gynnal wrth ystyried cost
- Sicrhau ni chaiff unrhyw orgyffwrdd ag adolygiadau neu bwyllgorau eraill.

**Penderfynwyd** darparu cwmpas amlinellol yr Adolygiad Caffael yn ysgrifenedig i'w ystyried yn llawn.

## 13 Cynllun Gwaith Diwygiedig 2017/2018.

Darparwyd Cynllun Gwaith diweddaredig gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro a bydd yn darparu rhaglen ar gyfer y flwyddyn maes o law.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi'r cynllun gwaith; a
2) llunio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn a'i dosbarthu ymhlith aelodau'r pwyllgor.

**14 Cylch Gorchwyl.**

Darparwyd fersiwn ddrafft o'r Cylch Gorchwyl gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dros Dro at ystyriaeth y pwyllgor.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.25 am

**Cadeirydd**